HEDDLU GOGLEDD CYMRU | NORTH WALES POLICE

Gogledd Cymru diogelach | A safer North Wales




# Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned







## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## 31 Mawrth 2013

GOGLEDD CYMRU PACT NORTH WALES

Yn cynnwys Trechu Trosedd **Trechu Trosedd**

# Cynnwys


Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorwyr Proffesiynol ..... 2

Adroddiad y Cadeirydd ..... 3

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ..... 4

Adolygiad o Weithgaredd ..... 5

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ..... 9

Datganiad o Weithgaredd Ariannol ..... 10

Mantolen ..... 11

Nodiadau ar y Cyfrifon ..... 12

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol ..... 17


## Atodiadau


Cronfa Grantiau Bach ..... 18

Prosiectau ..... 23

Ymgyrch B.A.N.G. (Be A Nice Guy) Tachwedd 2012 ..... 24


Grantiau Trechu Trosedd Clwyd ..... 28

Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd ..... 29

Ymddiriedolwyr ..... 30











# Aelodau’r Bwrdd Ymgynghorwyr Proffesiynol

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** | David W. Williams D.L. |
| **Bwrdd yr Ymddiriedolwyr** | Mark Polin QPM, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| | Patricia Hughes D.L. |
| | Trefor Jones CBE, CVO, LL |
| | Y Foneddiges Janet Jones J.P., D.L. |
| | E.F. Lloyd Fitzhugh O.B.E., J.P., D.L., |
| | Henry Dixon (Ex-officio 01/04/12 i 31/03/13) |
| | Edmund Bailey (Ex-officio 01/04/12 i 31/03/13) |
| | Cyng. Bill Cowie, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru |
| | David Hinchliffe (Trysorydd Anrhydeddus) |
| | David Catherall DL |
| | Paul Hinchliffe |
| | Steve Thomas, Swyddog Gweithredol Materion Llywodraethol, Airbus UK |
| **Rheolwr y Prosiect / Cydlynydd Trechu Trosedd** | D.V. Evans |
| **Eiddo** | Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a’r Gymuned, Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0HQ |
| **Banc** | HSBC Bank PLC, 60 Stryd Mostyn, Llandudno, Conwy LL30 2SF |
| **Archwilydd Annibynnol** | Gardners Chartered Accountants, Brynford House, 21 Brynford Street, Treffynnon, Sir y Fflint CH8 7RD |

# Adroddiad y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Adroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013.

Unwaith eto mae PACT wedi parhau i gefnogi cymunedau lleol, yn bennaf drwy'r rhwydwaith o Dimau Plismona Lleol, ac yn benodol drwy Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu. Rwy'n dal i ryfeddu ynghylch ehanger ac amrywiaeth y mentrau y mae'r SCCH yn gysylltiedig â nhw yn ein cymunedau, a dylwn barhau i'w llwyr werthfawrogi.

Mae ein Cronfa Grantiau Bach wedi'i chynllunio'n arbennig i alluogi'r Timau Plismona Lleol a'r SCCH gael symiau eithaf bychan o arian i helpu mentrau lleol sy'n helpu i wneud ein cymunedau'n ddiogelach. Yn ystod 2012-13 mi wnaeth PACT gefnogi dros 110 o fentrau a rhoddwyd iddynt grantiau gwerth dros £21,000.

Yn ychwanegol at hyn mi wnaethom weithio mewn partneriaeth â Thîm Lleihau Llosgi Bwriadol Gogledd Cymru i gefnogi mentrau diogelwch yn ystod cyfnod Calan Gaeaf a Thân Gwyllt er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac achosion o danau bwriadol. Yn 2012 rhoddwyd 77 grant gwerth dros £14,500.

Hefyd mae nifer o brosiectau mwy wedi bod yn llwyddiannus, gan gynnwys Menter Pêl-droed 'Futsal' Nos Fercher - Llandudno, Ardal Dim Galwyr Digroeso Ynys Môn a Sgowtiaid 1af Esclusham - mi wnaethant i gyd gael grantiau gennym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Trechu Trosedd yn parhau i fod yn un o'n prif weithgareddau a hoffwn ddiolch i Uchel Siryfion Clwyd a Gwynedd - Henry Dixon ac Edmund Bailey am eu gwaith caled a'u cefnogaeth yn ystod eu blwyddyn yn y swydd.

Mae'r Rhaglen Cyfiawnder mewn Diwrnod yn parhau i dyfu ac eleni mi wnaeth dros 700 o bobl ifanc o ar draws Ogledd Cymru fynychu'r gweithdai. Mae hon wirioneddol yn fenter unigryw sy'n gwneud i bobl ifanc feddwl pam bod unigolion yn troseddu, beth yw'r canlyniadau, a pha mor bwysig ydyw i wneud y dewis cywir mewn bywyd. Mae ein partneriaid sy'n cyflwyno'r rhaglen, Theatr Clwyd Cymru, wedi gweithio gyda'r Heddlu, Llysoedd EM, yr Ynadon a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i greu rhaglen addysgol arloesol sydd wedi datblygu i fod yn rhan werthfawr o galendr ysgolion, a hoffwn ddiolch i'n holl bartneriaid am eu cefnogaeth gyda'r rhaglen hon.

Bydd Cyfiawnder mewn Diwrnod yn parhau i fod yn ganolbwynt i'n strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Hwn yw fy adroddiad cyntaf fel Cadeirydd ers i mi gymryd drosodd y swydd gan Trefor Jones CBE CVO yn 2012. Roedd Trefor wedi gwasanaethu fel Cadeirydd am dros bum mlynedd ac mae ei arweinyddiaeth a'i stiwardiaeth wedi cael dylanwad enfawr ar ddatblygiad PACT yng Ngogledd Cymru. Yr wyf i a fy nghyd Ymddiriedolwyr yn ddiolchgar dros ben iddo am ei waith gyda PACT.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddiolch i'n cefnogwyr a'n noddwyr, Heddlu Gogledd Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac Awdurdod yr Heddlu o'i blaen sydd i gyd wedi helpu i wneud hon yn flwyddyn lwyddiannus arall i Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn bersonol i fy nghyd Ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth, a hoffwn ddiolch yn arbennig i David Evans, Rheolwr Prosiect PACT, am ei ymdrechion parhaus i helpu i ddatblygu PACT ymhellach.

**David W. Williams DL**
**Cadeirydd Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned, Awst 2013**












# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Mae'n bleser gan yr Ymddiriedolwyr gyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y cyfnod o ddeuddeng mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013.

## Amcanion

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at yr arweiniad a gynhwysir yn arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth ac wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol a gosod y polisi grantiau ar gyfer y flwyddyn. Ym mhob gweithgaredd nod yr Ymddiriedolaeth yw codi proffil Diogelwch Cymunedol, a thrwy ddiogelu pobl ac eiddo lleihau ofn trosedd yn sylweddol ac yn sgil hynny gwella ansawdd bywyd unigolion ledled y rhanbarth. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys:

- Hyrwyddo mentrau atal trosedd.
- Hyrwyddo Diogelwch y Ffyrdd fel rhan annatod o fywyd trigolion Gogledd Cymru trwy hyfforddiant, addysg, cyhoeddusrwydd a phrosiectau arbennig.
- Addysgu trigolion Gogledd Cymru ynghylch materion sy'n gysylltiedig â chyffuriau, alcohol a sylweddau eraill a thrwy hynny helpu i leihau troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.

## Cyfansoddiad

Cafodd Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned ei lansio ar 14 Hydref 1998. Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig dan Ddeddf Elusennau 1993. Rhif cofrestru'r elusen yw 1071628.

## Dogfennau Llywodraethu

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei Llywodraethu gan y Datganiad o Ymddiried (Gweithred Ymddiried) a wnaed yn ffurfiol ar 9 Medi 1998.

## Trefniadaeth yr Elusen

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei rhedeg gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn unol â'r Datganiad o Ymddiried, dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, pan yn gyflawn, gynnwys hyd at dri ar ddeg o Ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, y sector busnes, ac Uchel Siryfion Clwyd a Gwynedd.

## Eiddo

Fe ymgymerir â gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth o'r swyddfeydd canlynol:

Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd
Cymru a'r Gymuned
Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0HQ

## Cyfyngiadau ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth

Mae gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i'r amcanion a amlinellir yn y Datganiad o Ymddiried fel y'i cymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae'r ardal all fanteisio ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i Ogledd Cymru.

## Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o ofynion y Comisiwn Elusennau parthed Cronfeydd wrth Gefn.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu lefel cronfeydd wrth gefn yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd ac yn fodlon eu bod wedi'u cadw ar lefel dderbyniol er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu'n effeithiol.

## Archwiliad Annibynnol

Yn unol â Datganiad Ymddiried gwreiddiol PACT, mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau, gan fod trosiant blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn llai na £500,000, bod angen Archwiliad Annibynnol. Pe bai trosiant yr Ymddiriedolaeth yn rhagori ar y lefel hwn yna byddai angen Archwiliad llawn.

# Adolygiad o Weithgaredd - Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

## Adeiladu cymunedau a chefnogi pobl ifanc:

Mae Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT) yn chwilio am, yn hyrwyddo ac yn cefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio meithrin amgylchedd diogelach a gwella ansawdd bywyd trigolion Gogledd Cymru. Mae'r elusen yn canolbwyntio ar fentrau sy'n:

- Hyrwyddo rhaglenni atal trosedd
- Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cyffuriau, alcohol a chamddefnyddio sylweddau eraill
- Lleihau trosedd ac amddiffyn pobl ac eiddo
- Hyrwyddo diogelwch y ffyrdd
- Gwella perthnasau rhwng yr ifanc a'r oedrannus
- Cefnogi Timau Plismona Cymdogaeth
- Gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth eang o asiantaethau a sefydliadau
- Mwyhau gwerthfawrogiad unigolion o'r gwaith y mae'r gwasanaeth plismona yn ei wneud i ddelio â materion lleol

Ers 1998 mae PACT wedi buddsoddi dros £1,000,000 mewn amrywiaeth eang o brosiectau cymunedol ledled Gogledd Cymru.

## Canolbwyntio/Medrus/Rhagweithiol:

Mae gan yr Ymddiriedolwyr brofiad o weithio yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae gan bob un ohonynt amrywiaeth eang o brofiadau sy'n werthfawr i'r Ymddiriedolaeth ac mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr set o sgiliau sy'n unigryw yng Ngogledd Cymru.

Mae hyn wedi profi i fod yn hanfodol er mwyn gallu datblygu PACT o fod yn rhoddwr nawdd adweithiol i fod yn ddatblygwr prosiectau rhagweithiol sy'n cefnogi cymunedau yn lleol ac yn rhanbarthol.

Mae adnabod, ariannu a rheoli prosiectau sydd eisiau cymorth yn effeithiol ac yn effeithlon yn fwyfwy angenrheidiol a phwysig mewn amgylchedd economaidd, gwleidyddol a diwylliannol sy'n newid o hyd. Gan fod PACT yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau mae pob rhoddwr, cefnogwr, yr heddlu a thrigolion Gogledd Cymru yn elwa o'r canlyniadau:


- Ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau wrth ddatblygu prosiectau sydd â budd penodol.
- Datblygu a rheoli prosiectau mawr fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar gymunedau.
- Cynyddu effaith, gwerth ac annibyniaeth PACT.
- Canolbwyntio ar brosiectau sy'n cefnogi blaenoriaethau plismona a diogelwch cymunedol.
- Ymgysylltu â busnesau er mwyn datrys problemau cymunedau.
- Datblygu'r sylfeini sydd eisoes yn bodoli - staff, Ymddiriedolwyr, enw da a phrosesau PACT.
- Dull mentrwr o weithredu - canolbwyntio ar syniadau a chyfleoedd.
- Datblygu partneriaethau ehangach (sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat)
- Bod yn rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol.
- Tyfiant organig sydd wedi'i reoli ar sail prosiect wrth brosiect sy'n seiliedig ar argaeledd yr arian sydd ar gael.
- Ychydig iawn o fiwrocratiaeth oherwydd bod costau craidd y rheolwyr yn cael eu hawlio'n ôl.

## Codi arian yn effeithiol ac yn effeithlon:

Mae PACT wedi datblygu perthynas dda gyda rhoddwyr a chwmnïau ar draws Gogledd Cymru, sy'n ei alluogi i ariannu a chefnogi nifer cynyddol o fentrau cymunedol.

Yn ychwanegol, gyda chefnogaeth Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, mi wnaeth PACT gymryd drosodd rheolaeth Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu (CDEH) yn 2006, gan ryddhau'r Awdurdod o'i rwymedigaeth i gynnal y broses ymgeisio (drwy ddefnyddio prosesau PACT), ond llwyddwyd i gynnal y berthynas a oedd eisoes yn bodoli rhyngddynt drwy enwebu cynrychiolydd o'r Awdurdod i fod ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Caiff yr arian sy'n cael ei godi drwy'r Gronfa hon ei roi i grwpiau cymunedol ledled siroedd Ngogledd Cymru.









# Adolygiad o Weithgaredd - Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

Mae'r ffaith bod PACT yn rheoli CDEH o fantais i'r ymddiriedolaeth o ran ceisio sicrhau arian cyfatebol neu fanteisio i'r eithaf ar yr arian sydd ar gael gan ffynonellau allanol. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae hyn wedi galluogi PACT i sicrhau gwerth dros £100,000 o nawdd gan noddwyr grant sydd wedi galluogi'r elusen i gefnogi prosiectau mawr.

Ar hyn o bryd mae PACT ar y trywydd iawn i godi £160,000 yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol 2012/13 i'w fuddsoddi mewn mentrau addysgol a diogelwch cymunedol.

## Rhaglenni mawr:

Ers 1998 mae PACT wedi datblygu ei allu i ddechrau, marchnata, rheoli a chynnal prosiectau mawr, yn bennaf yn y maes ieuenctid. Ymhlith y mentrau sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol mae "Meddyliwch Cyn Yfed", "Pencampwriaeth Pêl-droed Wrecsam", "Prosiect Gwirfoddoli'r Ifanc Abergele" ac yn fwy diweddar "Cyfiawnder mewn Diwrnod". Llwyddwyd i sicrhau gwerth dros £100,000 o nawdd ar gyfer y mentrau hyn.

Mae llwyddiant y prosiectau hyn wedi annog PACT i ddatblygu ei waith hyd yn oed ymhellach, drwy ddatblygu a rheoli portffolio o brosiectau mawr. Mae proffil ac effaith y prosiectau hyn, megis y rhai a restrir isod, yn helpu PACT i ddenu partneriaid newydd sydd â'r arian a'r sgiliau rheoli i osod PACT ar flaen y gad o ran elusennau diogelwch cymunedol Gogledd Cymru.

## "Cyfiawnder mewn Diwrnod"

"Cyfiawnder Mewn Diwrnod" yw prif brosiect PACT. Cafodd ei beilota i ddechrau yn 2010 yn dilyn ymgynghoriad gydag Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol, ysgolion, myfyrwyr a'r heddlu. Bydd yn dair oed yn 2013 ac unwaith eto bydd yn cael ei gyflwyno i dros 800 o ddisgyblion Blwyddyn 9 (13-14 oed) mewn 50 o ysgolion uwchradd ar draws Gogledd Cymru.

CYMRU
Clwyd Theatr Cymru

justice in a day

Mewn drama fywiog, realistig ac addysgiadol, mae'r gweithdy yn dilyn hynt cymeriad o'r enw Alex o'r adeg cyn iddo gyflawni trosedd drwodd i'w dreial a'i garchariad ac yn edrych yn benodol ar effaith hyn i gyd ar ei deulu, ei ffrindiau a'r dioddefwr. Yna mae'r materion, y risgiau a chost ymosodiadau pobl ifanc ar bobl ifanc o ganlyniad i fwlio seiber a bwlio drwy negeseuon testun yn cael eu trafod yn agored.

Mae'r ddrama yn adlewyrchiad o rai o fywydau a phroblemau'r plant eu hunain, ac mae hefyd yn galluogi'r gynulleidfa i weld, clywed a deall beth allai'r canlyniadau fod - gan gynnwys gorfod ymddangos gerbron Llys, cael eu dedfrydu a'u carcharu.



Mae'r fenter arloesol a dylanwadol hon yn galluogi'r heddlu, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, pobl broffesiynol eraill sy'n gweithio o fewn y System Gyfiawnder Troseddol a'r ysgolion i weithio gyda disgyblion Blwyddyn 9 mewn amgylchedd anffurfiol ond proffesiynol sy'n:

- tynnu sylw at ganlyniadau gweithgareddau troseddol/gwrthgymdeithasol
- mae'n ffordd o fynd i'r afael â chwestiynau na fyddent efallai fel arall wedi gallu eu gofyn
- mae'n edrych ar effaith ymddygiad o'r fath ar y troseddwr, y dioddefwr a'r gymuned ehangach – ynghyd â'r costau sy'n gysylltiedig â'r fath ymddygiad/weithredoedd
- mae'n annog dinasyddiaeth dda

Yn dilyn cynnal y rhaglen yn 2012 mi wnaeth 96% o'r bobl ifanc a fynychodd y gweithdai ddweud y byddent yn llai tebygol o droseddu yn y dyfodol.

# Adolygiad o Weithgaredd - Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

## Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu (CDEH):

Oherwydd mai PACT sy'n rheoli CDEH mae'n gallu cefnogi amrywiaeth eang o brosiectau ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r prosiectau hyn wedi cynnwys:

- Bangor - Bugeiliaid Stryd
- Conwy - Menter Taclo Cyffuriau drwy Bêl-droed
- Conwy a Sir Ddinbych - Bus Stop, rhaglen addysgol allgymorth i bobl ifanc
- Ynys Môn - Ardaloedd Dim Galwyr Digroeso
- Abergele - Cynllun Gwarchod Coetiroedd
- Ledled Gogledd Cymru - Cymorth i Ddioddefwyr
- Rhuthun - Rhaglen addysgu pobl ifanc am ddiogelwch y ffordd
- Y Rhyl - Point FM, gorsaf radio gymunedol
- Llangollen - Grŵp Diogelwch Cymunedol / Cynllun Gwarchod Busnes
- Ysgolion Sir y Fflint - Rhaglenni addysgol cŵn cyffuriau Wagtail
- Penarlâg, Sir y Fflint - Prosiect ymgysylltu â'r ifanc Hawker Jets
- Wrecsam - Canolfan Adnoddau Llai
- Wrecsam - Rygbi Stryd, Parc Caia
- Ledled Gogledd Cymru - Cronfa Grantiau Bach - Timau Plismona Cymdogaeth

## Cronfa Grantiau Bach Timau Plismona Cymdogaeth:

Gyda nawdd gan CDEH, mae'r Gronfa Grantiau Bach yn parhau i fod yn hynod boblogaidd gyda'r Timau Plismona Cymdogaeth ac mae wedi profi i fod yn declyn gwerthfawr iawn er mwyn eu cynorthwyo nhw i gefnogi grwpiau cymunedol lleol.

Mae'n cynnig gwir werth am arian oherwydd fe ddefnyddir syniadau ac egni'r Timau Plismona Cymdogaeth ar draws Gogledd Cymru i gefnogi cymunedau lleol - mae hyd at £250 ar gael.

Ers iddi gael ei lansio mae'r Gronfa Grantiau Bach wedi rhoi gwerth dros £200,000 o grantiau ac wedi cefnogi cannoedd o Swyddogion Heddlu a chymunedau.

## Ymgyrch BANG:

Mae PACT yn gweithio gyda Thîm Lleihau Llosgi Bwriadol Gogledd Cymru (menter ar y cyd rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) i sicrhau a rheoli nawdd ariannol i gefnogi Ymgyrch BANG sy'n cefnogi mentrau cymunedol dros gyfnod Noson Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.





Roedd llawer o'r mentrau eleni yn cynnwys addysg am ddiogelwch gyda thân gwyllt a choelcerthi gan amlygu themâu penodol, gan gynnwys:

- Iechyd a Diogelwch - trafod peryglon tân gwyllt a choelcerthi
- Diogelwch y ffyrdd - y perygl cynyddol i bobl ifanc sy'n cerdded ar y ffyrdd mewn dillad tywyll ar strydoedd tywyll
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghyd-destun chwarae 'Cast neu Geiniog' gyda phwyslais arbennig ar barch tuag at drigolion mewn oed nad ydynt efallai eisiau i bobl ifanc ddod at eu drysau.
- Diogelwch Personol, yn arbennig mewn perthynas â'r peryglon cysylltiedig â phlant yn mynd i mewn i dai pobl ddieithr wrth fynd allan i chwarae 'Cast neu Geiniog'.

Mae'r rhaglen nawdd hon yn parhau i fod yn llwyddiannus ac yn hynod boblogaidd gydag aelodau o Dimau Plismona Cymdogaeth. Adlewyrchir hyn yn y ffaith fod y nawdd y mae PACT wedi'i sicrhau ar gyfer Ymgyrch BANG wedi cynyddu dros 130% yn y tair blynedd diwethaf.

Meddai Kevin Jones, Rheolwr Lleihau Llosgi Bwriadol: "Mae BANG wedi galluogi'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol i ffurfio perthynas waith agosach â'r Timau Plismona Cymdogaeth er mwyn lleihau achosion o gynnau tân yn fwriadol, ymddygiad gwrthgymdeithasol â'r troseddau cysylltiedig."














# Adolygiad o Weithgaredd - Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013

## Trechu Trosedd

Mae nifer o gronfeydd PACT yn cefnogi mentrau pobl ifanc ond Trechu Trosedd yw'r brif elusen a hon yw elusen swyddogol Uchel Siryfion Clwyd a Gwynedd.

Mae Trechu Trosedd yn annog pobl ifanc i ddatblygu prosiectau yn eu cymunedau fydd yn helpu i atal a lleihau trosedd a gwella diogelwch cymunedol ac mae grantiau o hyd at £500 ar gael. Uchel Siryfion Gogledd Cymru sy'n llwyr gyfrifol am gasglu arian ar gyfer y gronfa hon a dros y 10 mlynedd diwethaf mae wedi cefnogi dros 200 o brosiectau ac wedi rhoi gwerth dros £130,000 o grantiau.

Fe gefnogir amrywiaeth eang o brosiectau gwahanol megis prosiectau ar ddiogelwch y ffyrdd, addysg cyffuriau/alcohol, diogelwch ar y rheilffyrdd, byw'n iach a rhaglenni gwrthfwlio megis:

- Ynys Môn "Gwell Atal na Gwella" - digartrefedd a throseddu
- Clwb Ieuenctid Llandudno, "Dyweda Na" - yfed dan oed, cymryd cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Ysgolion Cynradd Brynteg a Nannerch - gwrthfwlio - Cyfeillion Chwarae
- Marsialiaid Gorllewin Y Rhyl - ymgysylltu â'r ifanc, y gymuned a'r amgylchedd
- Caernarfon, Gisda - cefnogi'r digartref
- Y Rhyl, Clwyd Alyn - yr amgylchedd
- Criw Diogelwch Llandrillo - diogelwch plant
- Castell Alun, Yr Hôb - gwirfoddoli ymysg yr ifanc
- YPDAT Y Fflint "Ni Fyddwch Bob Amser yn Lwcus" - addysg cyffuriau ac alcohol
- Cyngor Cymuned Brychdyn - addysg, ymgysylltu, yr amgylchedd

## AR GYFER Y DYFODOL

### Datblygu a thyfu

Mae cwmpas, cyrhaeddiad, arbenigedd a gweledigaeth PACT yn parhau i dyfu. Yn y tymor canolig hoffai'r Ymddiriedolwyr weld PACT yn datblygu i fod yn fenter gymdeithasol, gynaladwy a hunangynhaliol gyda phortffolio o nawdd a phrosiectau dan ei reolaeth uniongyrchol.

Bydd PACT yn parhau i fod yn sefydliad dielw a bydd yr holl arian yn cael ei ail-fuddsoddi er mwyn datblygu prosiectau newydd ar gyfer y dyfodol.

Bydd PACT yn ceisio comisiynu rhagor o waith ymgysylltu tebyg, yn benodol (ond nid yn unig) gyda phobl ifanc ac ar hyn o bryd mae'n peilota nifer o fentrau newydd:

- S.P.E.E.D. (Supporting People Encouraging Educated Driving) - gweithdy diogelwch y ffyrdd sy'n edrych ar faterion megis rebels rasio, gyrru'n beryglus ac effaith hyn ar gymunedau lleol.
- CAT'S PAW - hybu ymwybyddiaeth ymysg yr ifanc o beryglon ysglyfaethwyr rhywiol
- STREET'S AHEAD - gweithio gyda Thîm Plismona Cymdogaeth Y Rhyl a grwpiau cymunedol lleol i'w helpu nhw gymryd mwy o gyfrifoldeb am faterion lleol.

Dan arweiniad yr Ymddiriedolwyr a rheolaeth uniongyrchol rheolwr yr Ymddiriedolaeth, y nod yw datblygu partneriaethau ehangach drwy dyfiant organig sydd wedi'i reoli ac sy'n seiliedig ar argaeledd yr arian prosiect penodol sydd ar gael.

Er mwyn gwneud hyn rhaid parhau i ddatblygu prosiectau sy'n cefnogi'r Blaenoriaethau Plismona, ein gwaith gyda'r Timau Plismona Cymdogaeth a'u cymunedau, gyda chefnogaeth rheolaeth barhaus Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu fydd yn mwyhau ein gwaith partneriaeth a'n gallu i gynhyrchu incwm.

Hoffai Ymddiriedolwyr PACT ddiolch i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru sydd bellach wedi'i ddiddymu am ei gefnogaeth ers 1998, ac edrychwn ymlaen at drafod ein gwaith, a'r cyfleoedd i ddatblygu partneriaethau newydd gyda Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd er mwyn parhau gyda gwaith positif PACT.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob cyfnod ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o weithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn mae'n ofynnol iddynt ddilyn arfer gorau a:-


- dethol polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith mewn dull cyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog;
- datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu a'r datganiadau arfer argymelledig, yn amodol ar unrhyw amrywiadau materol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes sydd ar y gweill oni bai ei bod yn amhriodol cymryd y bydd yr elusen yn parhau i fod yn weithredol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol beth yw sefyllfa ariannol yr elusen ac a fydd yn eu galluogi i weld beth yw sefyllfa ariannol yr elusen ac i gydymffurfio â Deddf Elusennau 1993, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r Weithred Ymddiried. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac anghysondebau eraill.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ac awdurdodwyd ar gyfer cyhoeddi ar 21/08/2013 a llofnodwyd ar eu rhan gan:

**David Hinchliffe**
**Trysorydd**













# Datganiad o Weithgaredd Ariannol

## Ar gyfer y 12 mis yn diweddu 31 Mawrth 2013

| | Nodyn | Cronfeydd Digyfyngiad | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2013 | Cyfanswm 2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU I MEWN | | | | | |
| **Adnoddau a dderbyniwyd o nawdd a gynhyrchwyd** | | | | | |
| Rhoddion, grantiau a nawdd | 4 | | 81,901 | 81,901 | 75,167 |
| Nawdd Cyfiawnder Mewn Diwrnod | 4 | | 36,950 | 36,950 | 33,000 |
| Cefnogaeth heb fod yn arian i Cyfiawnder Mewn Diwrnod | 4 | | 7,600 | 7,600 | 20,000 |
| Incwm heb fod yn arian | 7 | | 19,552 | 19,552 | 35,552 |
| Gweithgareddau cynhyrchu nawdd ariannol | | | | | |
| Ailgylchu ffonau symudol | | | 98 | 98 | 542 |
| Incwm o fuddsoddiad | | 30 | | 30 | 125 |
| | | **669** | **163,717** | **164,386** | **83,430** |
| ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD | | | | | |
| **Gwariant Elusennol Uniongyrchol** | 5 | | | | |
| **Gweithgareddau Elusennol:** Grantiau a Ddyfarnwyd | | | 53,980 | 53,980 | 41,498 |
| Costau Cyfiawnder Mewn Diwrnod | | | 36,643 | 36,643 | 23,542 |
| Grantiau Trechu Trosedd Clwyd | | | 7,305 | 7,305 | 7,757 |
| Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd | | | 18,140 | 18,140 | 5,792 |
| **Cost cyflwyno grantiau** | | 0 | 78,589 | 78,589 | 60,176 |
| Cyfiawnder Mewn Diwrnod heb fod yn arian | | | 20,000 | 20,000 | |
| **Cost Cynhyrchu Nawdd** | 5 | | 35,552 | 35,552 | 37,644 |
| **Costau Llywodraethu** | 5 | | 2,225 | 2,225 | 3,056 |
| CYFANSWM ADNODDAU A WARIWYD | | 0 | 155,845 | 155,845 | 139,289 |
| ADNODDAU NET I MEWN | | **128** | **-9,842** | **-9,714** | **25,097** |
| CYFANSWM CRONFEYDD A DDUCPWYD YMLAEN | | 2,914 | 93,564 | 96,478 | 71,381 |
| CYFANSWM CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN | | 3,042 | 83,722 | 86,764 | 96,478 |

# Mantolen

## Ar 31 Mawrth 2013


| | Nodyn | 2013<br>£ | 2012<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Asedau Presennol** | | | |
| Dyledwyr | | - | 7,000 |
| Arian Parod yn y Banc | | 137,671 | 108,496 |
| | | **137,671** | **115,496** |
| **Credydwyr** | | | |
| Croniadau | | 50,907 | 19,018 |
| | | **86,764** | **96,478** |
| **Cronfeydd wrth Gefn** | | - | - |
| **Cyfyngedig** | | 83,722 | 93,564 |
| **Digyfyngiad** | | 3,042 | 2,914 |
| **CYFANSWM** | | **86,764** | **96,478** |

| **Croniadau Credydwyr** | **Nodyn** | **2013** | **2012** |
|---|---|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru<br>Ffi Archwilwyr<br>Cyfiawnder Mewn Diwrnod | | 16000<br>907<br>34000 | -<br>907<br>18,111 |
| | | **50,907** | **19,018** |

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd ar gyfer eu cyhoeddi gan yr Ymddiriedolwyr ar 21/08/2013 a llofnodwyd ar eu rhan gan:

**David Hinchliffe**
**Trysorydd**









# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu wedi'u crynhoi isod. Cafodd y polisïau cyfrifo eu cymhwyso'n gyson drwy gydol y flwyddyn hon a'r flwyddyn flaenorol.

### a) Sylfaen Cyfrifo

Llunnir y cyfrifon ar sail croniad ac yn unol â'r datganiad o Arfer Argymelledig: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005.

### b) Cyfrifyddu Cronfeydd

- Mae Cronfeydd Digyfyngiad ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen.
- Mae Cronfeydd Cyfyngedig yn destun cyfyngiadau ar eu gwariant wedi'u pennu gan y sawl a'u cyfrannodd.

### c) Adnoddau i Mewn

Cynhwysir yr holl adnoddau yn y datganiad o weithgaredd ariannol pan fydd gan yr elusen hawl i'r incwm ac y gellir meintioli'r swm yn eithaf manwl gywir. Caiff y polisïau penodol canlynol eu rhoi ar waith mewn perthynas â chategorïau penodol o incwm:

- Derbynnir incwm gwirfoddol drwy grantiau a rhoddion a chaiff ei gynnwys yn llawn yn y Datganiad o Weithgaredd Ariannol. Caiff grantiau, ble nad yw hawl yn amodol ar ddarparu perfformiad penodol ar ran yr elusen, eu cydnabod pan fydd gan yr elusen hawl diamod iddynt.
- Cynhwysir gwasanaethau a chyfleusterau a roddir am ddim yn seiliedig ar eu gwerth i'r elusen ble gellir meintioli hyn.
- Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gynnwys pan yn dderbyniadwy.
- Caiff adnodau a geir o grantiau, os ydynt yn berthnasol i berfformiad a darpariaethau penodol, eu cyfrifyddu.

### d) Adnoddau a Wariwyd

Caiff gwariant ei gydnabod ar sail gronnus wrth i grantiau ayyb gael eu gwneud. Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei adfer yn ei gyfanrwydd a chaiff ei nodi fel rhan o'r gwariant y mae'n berthnasol iddo:

- Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny a gaiff yr elusen wrth ddarparu ei weithgareddau a'i wasanaethau ar gyfer ei fuddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol i weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cynnal.
- Mae costau llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â diwallu gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys ffioedd a chostau archwilio annibynnol cysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.
